# BWRDD PENSIWN DYDD MAWRTH, 3 MAWRTH 2020

**Yn bresennol**: Cyng. Aled Evans (Cynrychiolydd Cyflogwr), H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun), Sioned Parry (Cynrychiolydd Cyflogwr), Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau) - Cadeirydd, Huw Trainor (Cynrychiolydd Cyflogwr) a Sharon Warnes (Cynrychiolydd Aelodau).

**Swyddogion**: Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd**: Cyng. John P Roberts (Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau) - arsylwi

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar Ragfyr y 10fed 2019 fel rhai cywir.

Croesawyd Sioned Parry (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy) i'r cyfarfod fel cynrychiolydd cyflogwr newydd i'r Bwrdd.

## 5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU

Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2020.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau pellach i'w codi o'r cofnodion

## 6. DIWEDDARIAD CYFFREDINOL AM WEINYDDIAETH PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Rheolwr Pensiynau yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y 6 mis diwethaf ynghyd a gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod, diweddariad ar amrywiol brosiectau a rhestr o'r heriau mae'r Uned Weinyddu yn eu hwynebu o ddydd i ddydd.

Eglurwyd, gydag amryw o newidiadau staffio diweddar byddai cyfnod byr o ansefydlogrwydd o fewn yr adran gan fod angen cynnal sesiynau anwytho a hyfforddiant i'r staff newydd

Yng nghyd-destun i-connect, adroddwyd bod cynnydd sylweddol yn nefnydd y system o gyflwyno data aelodau yn fisol. Amlygwyd bod Cyngor Gwynedd bellach yn cyflwyno manylion yn fisol a gwaith yn cael ei wneud i drosglwyddo Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy i'r system cyn diwedd y flwyddyn dreth 2019/20. Y bwriad yw trosglwyddo Cyngor Môn a Grŵp Llandrillo Menai yn y flwyddyn dreth 2020/21.

Cyflwynwyd crynodeb o ganlyniadau ansawdd data a gomisiynwyd gan ddarparwr meddalwedd (Aquila Heywod) ar gyfer y Gronfa. Amlygwyd bod canran gyffredinol y profion a basiwyd ar gyfer **data cyffredin** Gwynedd yn 99.4% oedd yn welliant dros sgôr 2018 o 99.3%. Ategwyd bod canran gyffredinol y profion a basiwyd ar gyfer **data penodol** y cynllun yn 96.1%. Nodwyd bod cynllun gweithredu ar gyfer glanhau data yn cael ei ddatblygu fel ymateb i ganfyddiadau'r ymarfer fel bod modd gwella'r data ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**DERBYNIWYD y wybodaeth.**

## 7. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddaru'r Aelodau ar ddatblygiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru. Adroddwyd bod perfformiad y bartneriaeth wedi bod yn safonol iawn a'r cydweithio yn mynd o nerth i nerth. Atgoffwyd yr Aelodau bod £606.2m o fuddsoddiadau ecwiti Cronfa Gwynedd wedi trosglwyddo i Gronfa Partneriaeth Pensiwn Cymru yn Chwefror 2019 gyda'r swm wedi ei rannu yn gyfartal i ddwy gronfa. Ategwyd bod perfformiad y ddwy gronfa yn uwch na'r meincnod a bod hyn yn newyddion calonogol iawn. Y cam nesaf fydd trosglwyddo buddsoddiadau presennol gyda Fidelity (£161.6m - Ecwiti Byd Eang) ac Insight (£292.0m - Bondiau) i ddwy gronfa Incwm Sefydlog. Nodwyd bod Russell Investment yn monitro'r perfformiad ac yn cynnal trafodaethau a chyfarfodydd yn aml gyda'r Gronfa fel bod modd cwblhau'r trosglwyddiad yn Ebrill 2020.

Yn dilyn y trosglwyddiadau Incwm Sefydlog, adroddwyd mai'r bwriad yw penderfynu ar strwythur rheolwyr buddsoddi delfrydol ar gyfer cronfa Marchnadoedd Datblygol. Amlygwyd bod oddeutu £52m i'w drosglwyddo i'r gronfa yma o gwmni Fidelity a thrafodaethau yn cael eu cynnal gyda Russell Investment i ystyried cronfeydd addas. Ategwyd bod Russell Investments yn ystyried gofynion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol wrth fuddsoddi'n gyfrifol a'u bod yn edrych yn fanwl ar ffyrdd o gwrdd â'r anghenion hyn, ynghyd a buddsoddiadau carbon isel, wrth ddatblygu ffurf a rheolaeth Cronfa Partneriaeth Pensiwn Cymru ond heb golli dychweliadau.

Cyfeiriwyd at drefniadau llywodraethu Cydbwyllgor y Bartneriaeth a nodwyd bod bwriad trafod os yw'r trefniant yn dal yn briodol yn eu cyfarfod nesaf ar y 12fed o Fawrth. Ategwyd bod awgrym i gynnwys cynrychiolaeth o'r Byrddau Pensiwn (o fewn yr awdurdodau cyfansoddol) ar y Cydbwyllgor.

Diolchwyd am y wybodaeth.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod Cronfa Gwynedd wedi cytuno a mabwysiadu egwyddorion buddsoddi cyfrifol a bod angen cadw at rhain wrth ystyred buddsoddiadau i'r dyfodol. Hwn yn safiad cryf ac ni ddylai unrhyw ddylanwad geisio newid y safbwynt.
- Angen osgoi meddylfryd rhuthro i mewn a chael ein dylanwadu gan eraill
- Bod cyfrifoldeb gan y Bwrdd i herio penderfyniadau a sicrhau bod canllawiau yn cael eu dilyn
- Bod angen sicrhau balans cywir fel bod y disgwyliadau yn cael eu cwrdd
- Bod yr 17 amcan cynaliadwy yn cael sylw - awgrym i gynnal sesiwn hyfforddiant ar yr amcanion hyn ar y cyd gydag Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau
- Trefniadau Llywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru - awgrym bod Cadeiryddion Byrddau Pensiwn yn cael mynychu'r cydbwyllgor fel sylwebwyr - yn cael rhoi mewnbwn ond heb bleidlais
- Posib argymell 2 sylwebydd (un o'r De ac un o'r Gogledd)
- Ni ddylai cynrychiolydd aelodau fod yn gadeirydd annibynnol
- Rhaid i'r ymarfer ychwanegu gwerth
- Bod CIPFA yn argymell yr ymarfer a Chronfeydd eraill yn ei weithredu - angen i Bartneriaeth Cymru wneud yr un fath
- Rheolydd Pensiynau yn pwyso ar y Byrddau i edrych ar sut mae cronfeydd yn gweithredu - hyn yn rheswm da i gael cynrychiolwyr o'r Byrddau Pensiwn ar y Cydbwyllgor
- Awgrym i'r Pwyllgor Pensiynau ddod i benderfyniad ar y mater a chyfeirio'r penderfyniad ymlaen at y Cydbwyllgor

**DERBYNIWYD y wybodaeth**

## 8. CYFATHREBU GYDAG AELODAU NEWYDD AC IFANC

Yn unol â gofynion y Bwrdd am fwy o wybodaeth ynglŷn â'u pryderon bod aelodau ifanc yn optio allan o'r Cynllun Pensiwn cyflwynwyd adroddiad manylach gan y Rheolwr Pensiynau i'r hyn a gyflwynwyd i gyfarfod 10.12.19. Cyfeiriwyd at y pecyn cychwynnol sy'n cael ei anfon allan cyn gynted â phosibl i aelodau newydd ar ôl sefydlu cofnod ar y system gyflogaeth, ynghyd a llyfryn y cynllun a ffurflen optio allan sydd yn cynnwys llythyr yn rhestru holl fuddion o barhau gyda'r cynllun.

Adroddwyd bod Grŵp Cyfathrebu Cymru wedi ei ailsefydlu i drafod materion cyfathrebu ag aelodau a mynegwyd bod y cyfarfod nesaf yn ystyried arferion gorau ac yn archwilio i ddulliau y gall y cronfeydd gydweithio arnynt i wella'r wybodaeth a ddarperir i aelodau.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod y pecyn yn un proffesiynol iawn ac yn cynnwys digon o wybodaeth
- Awgrym i'r pecyn gael ei anfon allan gyda chytundeb newydd
- Awgrym bod brawddeg yn cael ei gynnwys yn y llythyr penodi yn cyfeirio'r unigolyn at wefan y Gronfa
- Angen sicrhau bod cyngor da yn cael ei roi o'r dechrau
- Ystyried modd o ymhelaethu ar y buddion mewn dull cryno

**Derbyniwyd y wybodaeth**

## 9. CYNHADLEDD LAPFF, 4-6 RHAGFYR 2019- BOURNEMOUTH

Cyflwynwyd adroddiad gydag atodiad a baratowyd gan Hymans Robertson yn crynhoi’r prif faterion a gyflwynwyd yn ystod y gynhadledd. Nodwyd mai thema gyffredinol y gynhadledd oedd gwytnwch corfforaethol a’r heriau y mae hyn yn ei greu. Amlygwyd mai’r pynciau a drafodwyd oedd rheoli gwastraff bwyd a phlastig, trosglwyddo ynni a diogelwch ar y we.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod angen eglurder o’r hyn mae cwmnïau yn ei ‘gyfrif’
- Bod angen i Wynedd gytuno ar eu safonau
- Bod angen defnyddio’r wybodaeth i ddiweddaru’r gofrestr risg – cynnig bod y gofrestr risg yn eitem sefydlog ar y rhaglen

**DERBYNIWYD y wybodaeth**

## 10. CYNHADLEDD LLYWODRAETHU'R CPLLL, 23-24 IONAWR 2020 - EFROG

Cyflwynwyd adroddiad gan Sharon Warnes ynghyd ag atodiad a baratowyd gan Hymans Robertson yn crynhoi’r materion a drafodwyd yn y gynhadledd. Tynnwyd sylw at y prif negeseuon a mynegwyd bod pwyslais ar gronfeydd i sicrhau bod eu haelodau yn addas.

**Derbyniwyd y wybodaeth**

Amlygwyd bod Aelodau hefyd wedi mynychu seminar LGC ym mis Chwefror. Adroddwyd mai prif ffactorau'r seminar oedd gofynion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol wrth fuddsoddi’n gyfrifol ac effaith y coronafirws. Cyfeiriwyd hefyd at ddiweddariad achos McCloud a gwnaed awgrym i gynnwys y mater ar y gofrestr risg.

Derbyniwyd y wybodaeth ac argymhellwyd cynnwys achos McCloud ar y gofrestr risg.

## 11. PECYN HYFFORDDIANT Y RHEOLEIDDIWR PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad yn mynegi fel rhan o’r rhaglen hyfforddi bod hi’n ofynnol i aelodau’r Bwrdd ymgymryd â phecyn hyfforddiant ar lein y Rheoleiddiwr Pensiynau. Amlygwyd bod yr hyfforddiant yma yn galluogi Aelodau Bwrdd i gyrraedd y lefel isaf o wybodaeth a dealltwriaeth a gyflwynwyd yn Neddf Pensiynau 2004.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Angen cadarnhad bod yr hyfforddiant yn hanfodol – aelodau eisoes wedi derbyn hyfforddiant tri diwrnod
- Awgrym i drefnu dyddiau hyfforddiant os yn hanfodol
- A yw’r Rheoleiddiwr Pensiynau yn gweld y Byrddau Pensiwn fel rheolwyr? Beth yw eu disgwyliadau?
- A yw Aelodau’r Pwyllgor Pensiynau i gwblhau’r hyfforddiant?

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf

**PENDERFYNWYD gwneud cais am adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.50 y.h.

**CADEIRYDD**